

Blociau nerfau perifferol

Mae'r daflen hon yn egluro beth i'w ddisgwyl pan fyddwch yn cael bloc nerfau ar gyfer llawdriniaeth. Cafodd ei hysgrifennu ar y cyd gan anesthetyddion, cleifion a chynrychiolwyr cleifion.

Cynnwys

Mae'r daflen hon yn egluro:

- beth yw bloc nerfau
- pam y gallai fod o fudd i chi ar gyfer eich llawdriniaeth
- sut mae'n gweithio
- beth fydd yn digwydd wedyn
- risgiau a phenderfynu ar y cyd.

Ynglŷn â blociau nerfau

Chwistrelliadau o anesthetig yw blociau nerfau; maent yn fferru'r nerfau sy'n cyflenwi rhan arbennig o'r corff, er enghraifft, braich, llaw, neu goes neu droed. Mae'r chwistrelliad o anesthetig lleol yn rhwystro'r signalau poen ac yn gwneud rhan benodol o'r corff yn ddideimlad a llonydd, er efallai byddwch yn gallu teimlo symudiadau a thynnu yn ystod y llawdriniaeth.

Mewn rhai amgylchiadau gellir defnyddio blociau nerfau yn lle anesthetig cyffredinol. Gall hyn fod yn arbennig o fanteisiol i gleifion sydd â chyflyrau meddygol sy'n golygu eu bod yn wynebu risg uwch wrth gael anesthetig cyffredinol. Mantais arall o gael llawdriniaeth o dan effaith bloc nerfau yw ei fod yn llai tebygol o achosi rhai o'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag anesthetig cyffredinol.

Gellir cyfuno bloc nerfau ag anesthetig cyffredinol i helpu i reoli poen ar ôl llawdriniaeth. Mae'n gallu lleddfu poen am hyd at 24 awr ar ôl llawdriniaeth, er efallai y bydd rhai rhannau o'r corff yn parhau i fod yn ddideimlad am hyd at 48 awr.

Yn aml, defnyddir tawelydd gyda bloc nerfau i wneud i chi ymlacio a theimlo'n gysglyd yn ystod y llawdriniaeth. Gall tawelyddu fod yn ysgafn neu'n ddwfn ac efallai y byddwch chi'n cofio popeth, rhywbeth neu ddim ar ôl cael tawelydd. Gallwch ddarllen mwy am dawelyddu yn ein taflen [Egluro tawelyddu](#) sydd ar gael mewn ieithoedd gwahanol ar ein gwefan:

www.rcoa.ac.uk/patientinfo/translations#languages

Gall eich anesthetydd eich helpu i benderfynu pa opsiwn fyddai orau i chi ac ar gyfer eich llawdriniaeth.

Manteision blociau nerfau perifferol

- Lleddfu poen yn fwy effeithiol ar ôl llawdriniaeth.
- Llai o angen am gyffuriau lleddfu poen sydd yn cynnwys opioidau yn y cyfnod yn syth ar ôl y llawdriniaeth. Gall y rhain wneud i chi deimlo'n sâl ac efallai achosi rhwymedd. Yn achlysurol mae risg o ddod yn ddibynnol arnynt os byddwch yn eu cymryd am gyfnod hir.
- Osgoi anesthetig cyffredinol, gan gynnwys ei risgiau a'i sgil-ffeithiau. Mae sgil-ffeithiau cyffredin anesthetig cyffredinol yn cynnwys salwch, dolur gwddf/gwddf tost a syrthni.
- Gallu codi a symud o gwmpas yn gynharach a gadael yr ysbyty yn gynt.

Y clinig asesu cyn llawdriniaeth (clinig cyn-asesu)

Os ydych chi'n cael llawdriniaeth wedi'i chynllunio efallai y cewch eich gwahodd i glinig asesu cyn llawdriniaeth ychydig wythnosau neu ddyddiau cyn eich llawdriniaeth. Weithiau, ar gyfer llawdriniaethau llai, bydd nyrs yn trefnu galwad ffôn i fynd trwy ychydig o gwestiynau gyda chi.

Cofiwch ddod â'r canlynol gyda chi (neu sicrhau eu bod ar gael ar gyfer yr alwad ffôn):

- rhestr o'ch meddyginiaethau presennol, neu'ch meddyginiaethau yn eu pecynnau llawn
- os ydych chi'n cymryd cyffuriau i deneuo'ch gwaed, mae'n bwysig bod y fîm cyn-asesu yn gwybod hyn fel y gallant drafod a oes angen i chi roi'r gorau i gymryd y cyffuriau hyn cyn eich llawdriniaeth
- unrhyw wybodaeth sydd gennych chi am brofion a thriniaethau yr ydych wedi'u cael mewn ysbytai eraill
- gwybodaeth am unrhyw broblemau y gallech chi neu'ch teulu fod wedi'u cael gydag anesthetig
- unrhyw fesuriadau pwysedd gwaed diweddar.

Efallai y byddwch yn cyfarfod anesthetydd yn y clinig. Fel arall, byddwch yn cyfarfod eich anesthetydd yn yr ysbyty ar ddiwrnod eich llawdriniaeth.

Ar ddiwrnod y llawdriniaeth

Dylai'r ysbyty roi cyfarwyddiadau clir i chi ynghylch bwyta ac yfed a chymryd eich meddyginiaeth. Mae'n bwysig dilyn y cyfarwyddiadau hyn.

Dechrau'r bloc nerfau

Fel arfer cewch eich cludo i ystafell ger yr ystafell llawdriniaeth neu'r ystafell anesthetig i gael y bloc nerfau. Bydd offer monitro yn cael ei gysylltu fel y gall y fîm fonitro eich cyflwr trwy gydol y driniaeth.

Bydd y croen o amgylch safle'r pigiad yn cael ei lanhau a bydd chwistrelliad bach o anesthetig lleol yn cael ei ddefnyddio i fferru'ch croen - mae'n llosgi ychydig wrth fynd i mewn i'r meinweoedd.

Ar ôl fferru'r croen, defnyddir nodwydd wahanol i roi'r bloc nerfau. Bydd yr anesthetydd hefyd yn defnyddio peiriant uwchsain i weld lle mae'r nerfau ac i chwistrellu'r anesthetig yn y man cywir.

I'r rhan fwyaf o bobl nid yw'r pigiad yn ddim mwy poenus na chael gosod caniwla (tiwb plastig tenau a osodir mewn pibell waed).

Bydd y rhan o'ch corff sy'n cael ei drin yn dechrau teimlo'n gynnes ac yn goslyd ac yna'n mynd i deimlo'n drwm ac yn ddideimlad. Mae'r pigiad fel arfer yn cymryd rhwng 20 a 40 munud i weithio. Bydd yr anesthetydd yn gwirio'r teimlad mewn gwahanol lefydd. Ni fyddwch yn cael eich cludo i'r ystafell lawdriniaeth nes bod yr anesthetydd yn hapus bod y bloc yn gweithio'n dda.

Os na fydd y bloc yn gweithio'n llawn, cynigir mwy o anesthetig lleol, cyffuriau lleddfu poen ychwanegol neu anesthetig cyffredinol i chi.

Yn ystod y llawdriniaeth

Bydd sgrin yn cael ei gosod er mwyn eich rhwystro rhag gweld y llawdriniaeth.

Efallai y byddwch yn cael gwranddo ar gerddoriaeth gyda chlustffonau ar eich dyfais eich hun yn ystod y llawdriniaeth - holwch a yw hyn yn bosibl.

Mae ystafell lawdriniaeth yn lle prysur - fel rheol bydd rhwng pump ac wyth o bobl yn yr ystafell, pob un â'i rôl ei hun yn helpu i ofalu amdano chi. Bydd aelod o'ch fîm anesthetig gyda chi trwy gydol y llawdriniaeth, ac weithiau efallai y bydd aelodau eraill o'r fîm yn siarad â chi ac yn helpu gyda'ch gofal.

Os byddwch yn cael tawelydd, byddwch yn teimlo wedi ymlacio ac yn gysglyd. Byddwch yn cael ocsigen trwy fasg wyneb o blastig ysgafn. Efallai y byddwch yn cofio bod yn yr ystafell lawdriniaeth, er y gall yr atgofion hyn fod yn dameidiog.

Mae rhagor o wybodaeth am dawelyddu yn ein taflen Egluro tawelyddu sydd ar gael mewn ieithoedd gwahanol ar ein gwefan:

www.rcoa.ac.uk/patientinfo/translations#languages

Ar ôl y llawdriniaeth

Gall effaith y bloc nerfau bara hyd at 48 awr. Yn ystod y cyfnod hwn bydd y rhan o'r corff sydd wedi cael ei fferru ag anesthetig yn teimlo'n drwm iawn a bydd angen ei gynnal nes bod eich cyhyrau'n dechrau gweithio eto. Efallai y bydd angen i rywun eich helpu i gyflawni tasgau bob dydd wrth i chi wella ar ôl y llawdriniaeth.

Wrth i effaith y bloc nerfau bylu efallai y byddwch yn cael pinnau mân yn eich bysedd neu fysedd eich traed. Mae hyn yn hollol normal.

Ôl-ofal pan fyddwch chi gartref

Cyn cael eich rhyddhau o'r ysbyty byddwch yn cael gwybodaeth i'ch helpu i wella gartref. Dylech ddefnyddio unrhyw gymhorthion a roddir i chi unwaith y byddwch chi gartref. Mae hyn oherwydd na fydd gennych deimlad llawn yn ardal y llawdriniaeth ac rydych chi'n fwy tebygol o gael anaf. Gall y fferdod hwn bara hyd at 48 awr fel rheol.

- Cymerwch ofal arbennig o amgylch ffynonellau gwres, fel tanau neu reiddiaduron. Ni fyddwch yn teimlo gwres tra bydd y rhan o'ch corff yn ddideimlad ac efallai y byddwch chi'n cael eich llosgi.
- Dylech osgoi ddefnyddio unrhyw beiriannau neu offer domestig megis tegell, haearn smwddio ac offer coginio.
- Dechreuwch gymryd eich meddyginiaethau lleddfu poen cyn i'r bloc nerfau bylu, ac yn unol â chyfarwyddyd yr ysbyty. Mae hyn yn bwysig oherwydd gall effaith y bloc nerfau ddod i ben yn eithaf sydyn.

Pryd i ofyn am gymorth

Dylech ofyn am gymorth gan y gwasanaethau meddygol brys os:

- byddwch yn sylwi eich bod yn fyr o anadl heb eglurhad
- byddwch yn cael poen difrifol nad yw'n cael ei reoli gan eich tabledi.

Os na fydd y bloc wedi pylu'n llawn ddeuddydd ar ôl y llawdriniaeth, dylech gysylltu â'r adran anesthetig trwy ffonio'r rhif a nodir ar eich papurau rhyddhau o'r ysbyty.

Rhagor o wybodaeth ynglŷn â blociau nerfau

Mae RA-UK, y gymdeithas arbenigol ar gyfer anesthesia rhanbarthol, wedi cynhyrchu fideo gwybodaeth i gleifion ar flociau nerfau: Blociau nerfau: fideo gwybodaeth ar gyfer cleifion: www.ra-uk.org/index.php/patient-info-video

Risgiau a phenderfynu ar y cyd

Mae anesthetigion modern, gan gynnwys blociau nerfau, yn ddiogel iawn. Fodd bynnag, mae rhai sgil-ffeithiau cyffredin yn gysylltiedig â blociau nerfau, ond nid ydynt fel arfer yn ddifrifol nac yn para'n hir. Yn achlysurol gall blociau nerfau achosi niwed i'r nerfau.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y risgiau hyn yn ein pamffled ar risg: Niwed i'r nerfau sy'n gysylltiedig â bloc nerfau perifferol.

Bydd eich anesthetydd yn trafod â chi y risgiau y mae'n ystyried yn fwy arwyddocaol i chi. Bydd ond yn trafod risgiau llai cyffredin os ydynt yn berthnasol i chi.

Penderfynu ar y cyd

Mae penderfynu ar y cyd yn sicrhau bod unigolion yn cael cefnogaeth i wneud penderfyniadau sy'n iawn iddyn nhw. Mae'n broses gydweithredol lle mae clinigwr yn cefnogi claf i ddod i benderfyniad am ei driniaeth.

Bydd y sgwrs yn cyfuno:

- gwybodaeth arbenigol y clinigwr, megis opsiynau triniaeth, tystiolaeth, risgiau a buddion
- beth mae'r claf yn ei wybod orau: ei flaenoriaethau, amgylchiadau personol, nodau, gwerthoedd a chredoau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:

www.england.nhs.uk/personalisedcare/shared-decision-making

Dyma rai adnoddau y gallwch eu defnyddio i wneud y gorau o'ch trafodaethau â'r anesthetydd neu'r staff asesu cyn llawdriniaeth:

Choosing Wisely UK - fframwaith BRAN

Defnyddiwch y ddolen hon i'ch atgoffa i ofyn cwestiynau am eich triniaeth.

https://bit.ly/CWUK_leaflet

GIG gofyn tri chwestiwn

Efallai y bydd dewisiadau i'w gwneud ynghylch eich gofal iechyd.

https://bit.ly/NHS_A3Qs

The Centre for Perioperative Care (Canolfan Gofal Amdriniaethol) (CPOC)

Mae CPOC wedi cynhyrchu animeiddiad i egluro beth yw penderfynu ar y cyd.

www.cpoc.org.uk/shared-decision-making

Cwestiynau yr hoffech chi eu gofyn

Os oes gennych chi gwestiynau ynglŷn â'ch anesthetig, gwnewch nodyn ohonyn nhw (gallwch ddefnyddio'r enghreifftiau isod ac ychwanegu eich rhai eich hun yn y gofod isod). Os hoffech chi siarad ag anesthetydd cyn diwrnod eich llawdriniaeth, cysylltwch â'r tîm asesu cyn llawdriniaeth a fydd efallai'n gallu trefnu i chi siarad ag anesthetydd ar y ffôn neu mewn clinig.

- 1. Ydw i'n wynebu unrhyw risgiau penodol wrth gael y math hwn o anesthetig?**
- 2. Ydw i'n wynebu unrhyw risg uwch wrth gael anesthetig cyffredinol?**
- 3. Beth fydd yn digwydd os na fydd y bloc yn gweithio?**

Ymwadiad

Rydym ni'n ceisio sicrhau bod yr wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ac yn gyfoes, ond ni allem warantu hynny. Nid ydym yn disgwyl i'r wybodaeth gyffredinol hon ateb pob cwestiwn sydd gennych, na delio â phopeth sydd o bwys i chi. Dylech drafod eich penderfyniadau ac unrhyw amheuon sydd gennych chi gyda'ch tîm meddygol, gan ddefnyddio'r daflen hon fel canllaw. Ni ddylid ystyried y daflen hon, ar ei phen ei hun, yn gyngor. Ni ellir defnyddio'r daflen hon at unrhyw bwrpas masnachol nac unrhyw bwrpas busnes. I weld yr ymwadiad llawn, cliciwch yma (www.rcoa.ac.uk/patient-information/translations/welsh).

Mae pob cyfieithiad yn cael ei darparu gan gymuned cyfieithwyr Translators Without Borders. Mae ansawdd y cyfieithiadau yn cael ei gwirio er mwyn sicrhau bod y cyfieithiadau mor gywir ag sy'n bosib, ond mae yna risg o anghywirdebau a chamddehongli peth gwybodaeth.

Dywedwch wrthym beth yw eich barn

Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau, e-bostiwch: patientinformation@rcoa.ac.uk

Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)

Churchill House, 35 Red Lion Square, London WC1R 4SG
020 7092 1500

rcoa.ac.uk

Trydydd Argraffiad, Mehefin 2023

Bydd y daflen hon yn cael ei hadolygu o fewn tair blynedd o ddyddiad ei chyhoeddi.

© 2023 Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)

Caniateir copïo'r daflen hon at ddibenion cynhyrchu deunyddiau gwybodaeth i gleifion. Dyfynnwch y ffynhonnell wreiddiol hon. Os ydych am ddefnyddio rhan o'r daflen hon mewn cyhoeddiad arall, rhaid rhoi cydnabyddiaeth addas a thynnu'r logos, y brandio a'r delweddau. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni.